**PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG**

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy’n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 22 Gorffennaf 2020** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.M.Penry** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | A.R.Aubrey, C.Galsworthy, J.Hurley, D.Keogh, A.McGrath, W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale a/ac S.A.Knoyle |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | N.Pearce, M.Roberts, D.Griffiths, C.Furlow-Harris, S.Burgess, S.Blewett, C.Davies, T.Davies a/ac C.Plowman |

---

1. **STRATEGAETH ADFERIAD**

Cyflwynwyd strategaeth ddrafft i'r Aelodau ar sefydlogi, y cyfnod rhwng ymateb ac adferiad, yn dilyn cychwyniad COVID-19. Roedd y strategaeth yn disgrifio fframwaith cyffredinol a fyddai'n cefnogi ymagwedd gyson a chydlynus wrth i'r cyngor symud tuag at adferiad. Nodwyd bod y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i bob Pwyllgor Craffu ar gyfer sylwadau cyn ei chyflwyno i'r Cabinet ar 30 Gorffennaf 2020 i'w chymeradwyo.

Rhoddodd swyddogion drosolwg byr o gynnwys y strategaeth, gan esbonio ei bod wedi'i rhannu'n dair adran a oedd yn cynnwys edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth y cyngor yn ystod cyfnod ymateb yr argyfwng, edrych ymlaen wrth i'r DU symud allan o'r cyfnod ymateb a map ffyrdd o gamau gweithredu.

Wrth edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth y cyngor yn ystod y cyfnod ymateb, tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o gamau allweddol wedi'u cymryd, gan gynnwys sefydlu gwasanaeth cyfathrebu saith niwrnod yr wythnos fel y gellid anfon canllawiau gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru pan oeddent ar gael. Ychwanegwyd bod y cyngor wedi cau gwasanaethau i helpu i

leihau ymlediad y feirws ac wedi newid y ffordd yr oedd rhai gwasanaethau hanfodol yn gweithredu er mwyn gweithredu'n ddiogel, er enghraifft y gwasanaeth sbwriel. Soniodd swyddogion fod rhan gyntaf y strategaeth hefyd yn nodi'r newidiadau a wnaed mewn perthynas ag arweinyddiaeth a llywodraethu, gan gynnwys defnyddio'r ddarpariaeth Gweithredu Brys a nodir yn y Cyfansoddiad, i sicrhau bod penderfyniadau allweddol yn dal i gael eu gwneud yn ystod y cyfnod ymateb.

Esboniwyd ail ran y strategaeth i'r Aelodau, a oedd yn cynnwys edrych ymlaen wrth i'r DU symud allan o'r cyfnod ymateb i gyfnod sefydlogi, sef y cam cyn symud i'r cyfnod adfer. Esboniwyd bod tri maes wedi'u nodi fel ffocws wrth i'r cyngor symud ymlaen:

1. Y Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu

2. Sut mae gwasanaethau a swyddogaethau'r cyngor yn ymdopi

3. Deall ac ymateb i'r effaith y mae'r feirws wedi'i chael ar ddinasyddion, sefydliadau a busnesau ledled Castell-nedd Port Talbot

Ychwanegwyd bod yr ail ran hefyd yn nodi'r newidiadau y bu'n ofynnol eu gwneud o ran arweinyddiaeth a llywodraethu, yn ogystal â rhai o'r risgiau a'r materion a nodwyd y bydd angen eu rheoli wrth i'r cyngor fynd ati i roi'r strategaeth ar waith.

Cyflwynwyd trydedd ran y strategaeth fel map ffyrdd o gamau gweithredu a oedd wedi'i fframio ar sail system goleuadau traffig, a oedd yn nodi sut i symud o sefyllfa o gyfyngiadau symud llwyr, drwy'r system goleuadau traffig, i sefyllfa lle mae gwasanaethau'n gweithredu unwaith eto. Nodwyd bod nifer o wasanaethau ar y map ffyrdd yn dod o fewn cylch gwaith Pwyllgor Craffu'r Strydlun a Pheirianneg gan gynnwys trafnidiaeth, ffioedd parcio, gorfodi parcio a sbwriel ac ailgylchu.

Gofynnodd yr Aelodau am ba hyd y byddai Ysbyty Maes Llandarcy yn ei le, ac atebwyd nad oedd Swyddogion yn gallu rhoi dyddiad penodol ar hyn o bryd, gan y byddent yn ymateb i Bolisi Llywodraeth Cymru pan gaiff ei gyhoeddi. Fodd bynnag, roedd y contract cychwynnol a oedd gan y Bwrdd Iechyd â pherchennog y tir yn rhedeg hyd at fis Medi gyda darpariaethau ar waith i ymestyn hyd y contract pe bai angen. Soniwyd bod yr ysbyty'n gallu gweithredu, ond nad oedd wedi gweithredu hyd yma.

Gofynnnwyd i swyddogion pam y tynnwyd y Cydlynwyr Ardal Leol (CALl) o'u rolau yn y Gwasanaeth 'Safe and Well', ac i ble yr aethant yn dilyn hyn. Nodwyd bod y CALl wedi mynd yn ôl i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu'r gyfarwyddiaeth i ymateb i'r pwysau cynyddol yno. O ran y rolau a gyflawnwyd gan CALl pan aethant yn ôl i'r gwasanaeth, cytunodd Swyddogion y byddent yn holi ynghylch hyn ac yn hysbysu'r Aelodau.

2. **<u>GOFAL STRYDOEDD - CYNLLUNIO CYFLENWI AC ADFER GWASANAETHAU CYFREDOL</u>**

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o sefyllfa bresennol y gwasanaethau yn y maes Gofal Strydoedd a sut roedd gwasanaethau'n cael eu darparu wrth i'r cyngor symud tuag at gyfnod adfer yr argyfwng coronafeirws.

Cyflwynodd swyddogion graff o absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID-19 ym maes gwasanaeth Gofal Strydoedd i'r pwyllgor, a gynhwysir yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd. Tynnwyd sylw at y ffaith ei bod hi'n ofynnol cofnodi a choladu absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn wythnosol, ac roedd Swyddogion wedi bod yn gwneud hynny ers 13 Mawrth 2020. Dangosodd y graff sut roedd absenoldebau COVID-19 wedi amrywio ac yn benodol, sut roedd cyfradd yr absenoldebau'n datblygu tua diwedd mis Mawrth, cyn i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno. Fel sy'n amlwg yn y graff, dywedwyd mai'r elfen fwyaf sy'n gysylltiedig ag absenoldebau COVID-19 ar gyfer Gofal Strydoedd oedd y rheini a oedd yn gwarchod, ac mae'r rhan fwyaf o absenoldebau bellach o ganlyniad i warchod. Fodd bynnag, nodwyd y disgwylir i'r adolygiad nesaf ar gyfer y rheini sy'n gwarchod gael ei gynnal ar 16 Awst 2020, gyda llythyrau'n cael eu hanfon yr wythnos cyn hynny, a fyddai'n rhoi gwell dealltwriaeth o'r effaith.

Yn dilyn hyn, cyflwynwyd sefyllfa darparu gwasanaethau Gofal Strydoedd i'r Pwyllgor, a gynhwysir yn Atodiad B o'r adroddiad a ddosbarthwyd, a oedd yn cwmpasu'r holl wasanaethau yng nghylch gwaith Gofal Strydoedd. Aeth swyddogion drwy rai o'r sylwadau ar y statws sydd ohoni yn fyr gan ddiweddaru'r Aelodau lle yn ôl yr angen.

O ran glanhau traethau, soniwyd bod y gwasanaeth yn gweithredu fel arfer, ond roedd rhagor o adnoddau'n cael eu defnyddio gan fod y gwasanaeth yn ceisio dal i fyny â chlirio gwastraff oherwydd bod mwy

o bobl yn ymweld â'r traeth ac nid oeddent yn cael gwared ar eu sbwriel.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y canolfannau ailgylchu wedi agor ar 26 Mai 2020 a bod system archebu wedi'i chyflwyno lle gallai'r cyhoedd archebu slot amser o 15 munud i ollwng eu hailgylchu. Nodwyd bod y system yn gweithio'n dda iawn, a bod cynghorau eraill ledled Cymru yn ystyried cadw eu systemau archebu ar waith ar gyfer y dyfodol. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y gallai Cyngor Castell-nedd Port Talbot hefyd ystyried cadw eu system archebu.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y prosiect goleuadau stryd gwerth £1 miliwn yn mynd rhagddo, lle byddai rhagor o oleuadau LED yn cael eu cyflwyno yn lle’r goleuadau defnydd ynni uchel. Soniwyd bod y contract wedi dechrau yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 13 Gorffennaf 2020 a bod y contractwr wedi dechrau cwblhau'r profion trydanol cyn dechrau gosod goleuadau newydd yn lle'r hen rai.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod casgliadau ailgylchu a gwastraff yn faes yr oedd y gwasanaeth Gofal Strydoedd wedi'i flaenoriaethu, gyda staff yn gweithio'n galed iawn dros gyfnod y cyfyngiadau symud i gadw'r gwasanaeth i fynd ac i ddelio â'r cynnydd mewn gwastraff ac ailgylchu a gynhyrchwyd.

Soniwyd bod storfeydd a phrynu wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu gyda PPE ac offer, nid yn unig i Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ond hefyd wrth gynorthwyo meysydd eraill ar draws y cyngor.

Esboniodd swyddogion fod mwy o bwysau wedi bod ar y gwasanaeth cynnal a chadw coed i docio coed a oedd wedi gordyfu ar hyd priffyrdd oherwydd bysus deulawr ychwanegol, gan fod llawer o'r llwybrau bysus unllawr wedi'u newid yn rhai bysus deulawr. Nodwyd y bu'n rhaid cwblhau llawer o waith mewn cyfnod byr o amser i wneud y llwybrau hynny'n ddiogel i'r cyhoedd.

Hysbyswyd yr Aelodau bod gorfodi gwastraff ar waith, ond bod oedi o 72 awr cyn agor bagiau gwastraff gan fod angen i'r broses bellach fod yn un llawer mwy pwyllog a gofalus oherwydd y feirws. Soniwyd hefyd, gan fod y cyhoedd wedi'i gwahardd rhag defnyddio adeiladau'r cyngor, nad oedd cyfweliadau PACE wedi'u cynnal. Fodd bynnag roedd y staff ar hyn o bryd yn edrych ar drefniadau i ddefnyddio'r cyfleusterau yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd fel y gellid parhau â'r cyfweliadau.

O ran rheoli datblygiad systemau draenio tir a phriffyrdd, dywedwyd y byddai Mike Roberts a Dave Griffiths yn adolygu'r swyddogaeth gorfodi draenio tir i weld a fyddai'n well iddi fod yn rhan o'r isadran briffyrdd a draenio, er effeithlonrwydd. Nodwyd y byddai'r gweithdrefnau angenrheidiol yn cael eu cynnal yn dilyn yr adolygiad er mwyn i'r swyddogaeth symud pe bai angen.

Nodwyd mai'r brif broblem sy'n effeithio ar wasanaethau oedd y broblem 'tri mewn cab'; fe'i nodwyd mewn adroddiad am yr egwyddor rhagofal, ac fe'i newidiwyd fel na allai mwy na dau weithiwr fod mewn cab, gyda'r rhan fwyaf o gynghorau eraill yng Nghymru yn rhoi'r un gweithdrefnau ar waith. O ran casglu gwastraff, roedd hyn yn golygu bod angen i'r trydydd gweithiwr fod mewn cerbyd arall y dywedwyd ei fod wedi cael effaith sylweddol ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill; fodd bynnag, nodwyd mai'r ffactor cadarnhaol a gafwyd o hyn fu cynnal y gwasanaeth casglu gwastraff hanfodol, drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud. Dywedodd Swyddogion, wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi ac wrth i fwy o wasanaethau ddechrau gweithredu eto, fod y galwadau ar adnoddau mewnol yn cynyddu gan olygu adnoddau cyfyngedig i rai meysydd gwasanaeth fel torri glaswellt, gwaredu deunydd sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon a chasglu sbwriel. I gloi, dywedodd Swyddogion eu bod wedi cysylltu â'r Undebau Llafur i gael gwybod a ellid rhoi tri gweithiwr mewn cab a fyddai'n lliniaru’r sefyllfa o ran adnoddau; fodd bynnag, dywedwyd mai sicrhau diogelwch staff oedd y ffactor pwysicaf, felly byddai angen adolygu asesiadau risg a mesurau lliniaru.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y gwasanaeth wedi derbyn llawer o gwynion ynghylch triniaeth chwynladdwr, ac atebodd Swyddogion nad oeddent wedi cael llawer, ond eu bod wedi cael rhai ymholiadau yn gynharach yn y tymor, mewn perthynas â defnyddio plaladdwyr ac ymylon ffyrdd. Yn dilyn yr ymholiad ynghylch ymylon ffyrdd a sut cawsant eu rheoli, dywedodd Swyddogion eu bod yn cynnal trafodaethau â chydweithwyr yn y maes Cynllunio a Bioamrywiaeth ynghylch ehangu nifer yr ymylon ffyrdd a reolir gan fioamrywiaeth. Ychwanegwyd ei bod wedi mynd yn anos goruchwylio contractwyr a darparu adnoddau ar gyfer triniaeth chwynladdwr oherwydd y feirws.

Gofynnwyd i swyddogion a fyddai gweithwyr mewn canolfannau ailgylchu'n cael unrhyw fath o gysgod, yn dilyn arsylwadau nad oedd unman iddynt gysgodi rhag y glaw a'r tywydd oer ar hyn o bryd. Nodwyd bod y contractwr yn fodlon ar y trefniadau lles ar gyfer staff

drwy'r haf, ond y disgwylid i gontract newydd ddechrau ar 1 Hydref 2020 a oedd yn cynnwys bwth i weithwyr wrth fynedfa'r canolfannau.

Dangosodd yr Aelodau ddiddordeb mewn gweld y data o wastraff ac ailgylchu'r CDGC yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Soniwyd y bydd Aelodau'n derbyn ffigurau mewn adroddiad perfformiad chwarterol sydd ar ddod, a fydd yn dangos ffigurau gwastraff a'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y ffigurau hynny. Dywedodd swyddogion eu bod yn ymwybodol bod COVID-19 wedi cael effaith ar y ffigurau ers mis Mawrth 2020, o edrych yn ôl ar ffigurau'r llynedd (2019/20) o'u cymharu â'r data yr oeddent wedi bod yn ei goladu'n ddiweddar. Ychwanegwyd y bydd yr adroddiad perfformiad chwarterol yn rhoi darlun cyffredinol yn ogystal â chyfle i ymchwilio i bob effaith unigol.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gwastraff dillad a manteision ailddefnyddio dillad drwy fynd â nhw i siopau neu ddefnyddio 'Cash for Clothes' yn lle ailgylchu. Soniwyd ei bod yn arbennig o bwysig lledaenu ymwybyddiaeth o fudd ailddefnyddio gan y bu cynnydd yn nifer y bobl a oedd am gael gwared ar ddillad.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Diolchodd y Pwyllgor i'r gwasanaeth Gofal Strydoedd am eu holl waith caled yn ystod argyfwng COVID-19 a gofynnwyd i Mike Roberts, Pennaeth Gofal Strydoedd, drosglwyddo'r neges i'w dimau.

## 3. <u>PEIRIANNEG A THRAFNIDIAETH - CYNLLUNIO CYFLENWI AC ADFER GWASANAETH CYFREDOL</u>

Darparwyd trosolwg i'r Aelodau o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ar draws y Gwasanaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, sut olwg fydd ar y gwasanaeth a sut bydd yn gweithredu wrth i'r cyngor symud i'r cyfnod adfer.

Ar draws y pum maes gwasanaeth, dywedwyd bod Rheoli Datblygu Priffyrdd (RhDP) a Chludiant Teithwyr a Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol wedi'u galluogi'n llawn i barhau fel arfer yn effeithiol cyn belled â'u bod yn gallu delio â gohebiaeth a gweithrediadau beunyddiol, yn dilyn y cyhoeddiad am gau swyddfeydd.

O ran y tîm Rheoli Datblygu Priffyrdd, nodwyd eu bod wedi symud ymlaen gyda rhai ceisiadau cynllunio yr ymdriniwyd â hwy yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, a bod pobl wedi bod yn araf i fanteisio ar wasanaeth ar-lein y SAB (Corff Cymeradwyo SuDs) a aeth yn fyw

yn gynharach eleni, ond bod gwaith bellach yn mynd rhagddo yn y maes hwnnw. Ychwanegwyd bod yr holl asesiadau risg ar waith ar gyfer ymweliadau safle angenrheidiol er mwyn galluogi ceisiadau SAB i symud ymlaen.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod staff, yn enwedig y tîm Adeileddau, wedi bod yn rhan fawr o'r ymateb i'r tair storm fawr ddiweddar, gan gynnwys storm Dennis. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd llawer iawn o archwiliadau ar adeileddau a phontydd Castell-nedd Port Talbot. Nodwyd bod difrod saernïol yn effeithio'n fawr un bont ym Mlaengwrach, ond yn dilyn cefnogaeth y Cabinet ar gyfer y bont newydd i'w gosod yno, roedd y bont newydd bellach yn cael ei saernïo, ac roedd gwaith wedi cychwyn er mwyn ei chwblhau erbyn diwedd yr haf.

Esboniwyd i'r Aelodau fod canlyniadau COVID-19 wedi effeithio ar rai meysydd o Ddiogelwch Ffyrdd a Pherfformiad Busnes, yn bennaf oherwydd cau ysgolion. Dywedodd swyddogion fod llawer o'r rhaglenni hyfforddi wedi'u gohirio a bod yn rhaid i staff ailfeddwl sut y gallent symud ymlaen gyda'r rhaglenni; fodd bynnag, roedd rhaglenni bellach yn cael eu datblygu a fyddai'n cael eu darparu ar-lein drwy'r hwb, a byddai sgyrsiau ystafelloedd dosbarth yn cael eu cwblhau drwy dechnoleg byrddau gwyn drwy Microsoft Teams. Diolchodd Dave Griffiths, y Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, i'w cysylltiadau ag Addysg a TG, gan eu bod wedi helpu i gynnal rhaglenni hyfforddi pwysig i bobl ifanc.

Hysbyswyd yr Aelodau am y cynllun beicio i'r gwaith newydd a lansiwyd ar ddechrau mis Gorffennaf, lle'r oedd y nifer a fanteisiodd arno wedi bod yn dda iawn. Soniwyd bod tua 73 o bobl wedi achub ar y cyfle i brynu beiciau drwy'r cynllun (archebwyd 33 o feiciau trydan a thros 40 o feiciau traddodiadol) gydag Aelodau a Swyddogion o fewn y cyngor yn manteisio ar y cynllun hefyd. Ychwanegwyd y byddai rhaglen hyfforddi'n cael ei chyflwyno dros yr haf er mwyn i bobl allu dysgu sut i reidio beic.

O ran perfformiad busnes, nodwyd bod rhai gweithwyr cyflogedig yn yr ardal wedi'u hadleoli i'r gwasanaeth Tracio ac Olrhain i gynnal y llwyth gwaith a bod nifer o drefniadau newydd wedi'u llywio gan TGCh wedi'u cyflwyno; oherwydd canlyniadau cadarnhaol y trefniadau newydd hyn, dywedwyd y byddai'r timau busnes ac ysgrifenyddol yn cael eu hadolygu i nodi a ellid darparu'r gwasanaeth mewn ffordd fwy effeithlon a chynhyrchiol wrth symud ymlaen. Ychwanegwyd y byddai Joy Smith, Rheolwr Diogelwch Ffyrdd a

Pherfformiad Busnes, a goruchwylwyr yn adolygu hyn ac y bydd yr Aelodau'n cael clywed am y newidiadau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Esboniodd swyddogion fod y tîm Gwasanaethau Parcio wedi'i atal yn ystod cychwyniad y feirws, gan fod gorfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd wedi dod i ben dros dro. Cadarnhawyd y byddai gwasanaethau gorfodi parcio ar y stryd yn ailgychwyn ar ddechrau mis Gorffennaf, a gorfodi parcio oddi ar y stryd yn dechrau ar 1 Awst 2020. Ar 1 Medi byddai taliadau a gorfodi'n cael eu hailgyflwyno ym meysydd parcio canol trefi; soniwyd y byddai hyn yn rhoi cymorth ychwanegol i ganol trefi a manwerthwyr adfer ac i ganol trefi ddechrau agor.

Codwyd mater hawlenni parcio rhithwir newydd, gyda Swyddogion yn egluro bod 1,400 o staff a'r holl Gynghorwyr lleol wedi'u cofrestru ar gyfer hyn hyd yma ac o 1 Medi 2020 ymlaen, ni fyddai angen hawlenni papur. Ychwanegwyd y gellid cyfnewid rhifau cofrestru cerbydau ar-lein pe bai nifer o gerbydau'n cael eu defnyddio ac os oedd unrhyw un yn cael anawsterau gyda hyn gallent gysylltu ag Ian Rees, y Goruchwyliwr Gorfodi Parcio.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y tîm cyfan a oedd yn rhan o'r Gwasanaeth Cludiant Cymunedol wedi'i ail-leoli i helpu i sefydlu'r ganolfan dosbarthu bwyd a sefydlwyd i gefnogi'r Cynllun 'Safe and Well', sydd wedi bod yn gweithredu drwy gydol y pandemig. Ychwanegwyd y byddai'r sefyllfa warchod ar gyfer preswylwyr sy'n agored i niwed yn cael ei newid ar 16 Awst 2020, ac o'r dyddiad hwnnw ni fyddai pecynnau bwyd yn cael eu darparu mwyach.

Cadarnhaodd swyddogion, pe bai angen i staff fynd i mewn i'r swyddfeydd ar gyfer unrhyw waith hanfodol, fod rota wedi'i sefydlu er mwyn gwneud hyn yn ddiogel a chynnal mesurau pellter cymdeithasol. Soniwyd bod rhai staff cynorthwyol gweinyddol wedi dechrau mynd i mewn i'r swyddfa i roi cymorth i'r Gyfarwyddiaeth.

Diolchodd y Cynghorydd Simon Knoyle i Dave Griffiths, y Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, a gweddill y tîm am y gwaith a gwblhawyd ar y bont a oedd yn cysylltu Glyn-nedd a Chwmgwrach.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Diolchodd y Pwyllgor i'r gwasanaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth am eu holl waith caled yn ystod argyfwng COVID-19 a gofynnodd i Dave Griffiths, Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, gyfleu'r neges i'w dimau.

**CADEIRYDD**